

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ RE/00091/18

Annwen Daniels
Cadeirydd
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
LL55 1SH

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

15 Chwefror 2018

Annwyl Annwen,

Diolch am eich llythyr at Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, ynghylch effaith Credyd Cynhwysol ar deuluoedd ac unigolion, ac yn enwedig y cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent yn arwain at ddigartrefedd. Rwy'n ymateb gan fod fy mhortffolio yn cynnwys cyfrifoldeb am faterion sy'n ymwneud ag ymateb Llywodraeth Cymru i ddiwygio lles

Rwy'n dal i fod yn bryderus dros ben am y problemau difrifol sy'n ymwneud â Chredyd Cynhwysol, e.e. effaith y newidiadau mewn cymorth tai ar ôl-ddyledion rhent. Rwyf wedi mynegi pryderon Llywodraeth Cymru yn gryf, lawer gwaith, i Lywodraeth y DU, gan alw arni i atal y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol hyd nes ymdriniwyd â'r materion niferus a sylweddol.

Nid yw Llywodraeth Cymru o blaid datganoli rhaglenni lles i Gymru. Fel mater o egwyddor dylai fod gan bob un ohonom hawl gyfartal ar ein gwladwriaeth les, lle bynnag yr ydym yn byw yn y DU. Mae'r camau i ddatganoli budd-daliadau lles i Lywodraeth yr Alban wedi trosglwyddo'r risg ariannol sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod y galw am fudd-daliadau lles yn tyfu'n gyflymach y pen yn yr Alban nag yn Lloegr ers eu datganoli. Yng Nghymru, byddai hyn yn risg ariannol sylweddol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Adran Gwaith a Phensiynau y DU sy'n gweinyddu taliadau'r Credyd Cynhwysol yn yr Alban. Rwy'n awyddus i weld pawb sy'n hawlio Credyd Cynhwysol yn cael eu holi sut maent am i'w costau tai gael eu talu i'w landlord a pha mor aml maen nhw'u hunain am gael arian drwy drefniadau talu amgen. Mae'r trefniadau talu amgen hyn ar gael i unrhyw un sy'n gwneud cais am Credyd Cynhwysol ac nad yw'r opsiynau talu hyblyg hyn yn golygu bod angen datganoli'r gwaith o weinyddu budd-daliadau lles. Rwy'n parhau i drafod y mater hwn gyda Llywodraeth y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd camau i helpu pobl i reoli effeithiau newidiadau i fudd-daliadau lles, megis y grant £6 miliwn eleni i roi cyngor ar faterion lles cymdeithasol a'r £20 miliwn ychwanegol i atal digartrefedd dros y ddwy flynedd nesaf.

Yn gywir,



Rebecca Evans AC/AM

Y Gweinidog Tai ac Adfywio

Minister for Housing and Regeneration